Annwyl Bawb

E-FWLETIN 28: 6 GORFFENNAF 2009

Nodir manylion y digwyddiadau y mae Morlan yn ei threfnu isod:

ARDDANGOSFA O WAITH CEFYN BURGESS
Llun i Gwener, 10.00-12.00 & 14.00-16.00
Mae Cefyn Burgess yn un o arlunwyr tecstil mwyaf blaenllaw Prydain. Y mae'r arddangosfa hon yn cynnwys lluniau o rai o gapeli ardal Aberystwyth – gan gynnwys Capel y Morfa, Bethel a Chapel Seion – ynghyd â detholiad o luniau o gapeli Lerpwl ac America ac un o'i garthenni trawiadol. Bydd yr arddangosfa yma nes 25 Gorffennaf.

NOSON GYDA CEFYN BURGESS
7.00, nos Lun, 13 Gorffennaf
Cyfle i wrando ar Cefyn Burgess yn trafod ei waith a sôn am yr hyn sy'n ei ysbrydoli ac yn dylanwadu arno. Mynediad am ddim – croeso i bawb.

HANES ANGHYDFFURFIAETH YN ABERYSTWYTH: SGWRS GAN HUW OWEN
2.00, prynhawn Llun, 20 Gorffennaf
Y mae'r Morlan wedi trefnu'r sgwrs hon i gyd-fynd ag arddangosfa Cefyn Burgess. Mynediad am ddim – croeso i bawb

Mae yna ddigwyddiadau eraill hefyd yn cael eu cynnal yma dros y bythefnos nesaf:

DATBLYGIAD ALDI DEVELOPMENT
2.00-7.00, dydd Mercher, 8 Gorffennaf
Diwrnod agored i archwilio'r cynlluniau ar gyfer y datblygiad arfaethedig hwn.

SIOE FFASIYNAU EGWYDDOROL
7.00-10.00, nos Sadwrn, 11 Gorffennaf
Sioe ffasiynol egwyddorol wedi'i chyflwyno gan WYFSD (Fforwm Ieuenctid Cymru ar Ddatblygu Cynaladwy) gyda cherddoriaeth fyw gan y Violetones. Pris mynediad: £2.

TAITH DECHRAU'R DYFODOL (GIG GYDAG ARTISTIAID AMRYWIOL)
7.00-10.00, Nos Sul, 26 Gorffennaf
Gig gyda The Repercussion, Society Profiad, Steff Elis a Tom Whitman. Pris mynediad: £4. Gwybodaeth bellach: www.taith09tour.com.

Cofion gorau

Carol Jenkins
Rheolwr